

11.01.2023

Dear Resident,

Swansea Council recently secured funding under the Welsh Government's Coastal Risk Management Programme to undertake essential Coastal Protection works to a section of the existing sea defences at Mumbles promenade. The improvement works will afford enhanced flood and coastal erosion protection to businesses and residential properties currently at long term risk of flooding.

The protection works will be undertaken from a point approximately 250m north of Oystermouth Square down as far as Knab Rock. Knights Brown has been appointed as the contractor to undertake the work, which is currently planned to commence in February 2023 and be completed during summer 2024.

We will be establishing a main compound for our offices and welfare on council land next to the Oyster House Hotel, with a further plant and material compound within the council's Quarry Car park.

The seawall works will be constructed progressively along the foreshore in front of the existing sea defences with access to the beach via existing slipways and temporary ramps. At the locations where plant and site vehicles need to cross the existing promenade, Traffic Marshalls will be stationed to direct pedestrians, cyclists and plant. Beach users will need to be excluded from the localised work areas, but the other access points and beach areas will be available as usual. This tidal zone work will involve operation of heavy plant, demolition equipment and vibration piling. We will be undertaking noise and vibration monitoring as a matter of course throughout the duration of this work.


Works along the promenade will be undertaken concurrently with the seawall works, and involve the construction of a secondary wave wall, installation of drainage, upgraded public lighting and improvement of the public realm areas. In order to undertake these works safely, it will be essential to close sections of the promenade. An alternative pedestrian diversion route will be provided around the closed section on each occasion.

Knights Brown will be registering the project with the Considerate Contractors Scheme, who provide independent monitoring, review and audit of all activities that have the potential to affect any stakeholders. Due to the nature and scale of the works, some disruption and disturbance is inevitable, but we will do everything possible to limit any disruption and nuisance from the works.

Throughout the project, we will provide regular updates via social media, website, newsletter and community noticeboards. These will provide information on the scheme's progress, traffic management arrangements, local pedestrian diversion routes and any advanced notices about work that may fall outside our standard site hours.

If you have any questions or queries throughout the project, you can contact us directly via MumblesCPS@knightsbrown.co.uk or on **07818 432183**. We will also be arranging regular community drop-in sessions to allow you to meet and talk to our team directly.

Kind Regards



Catherine Waller
Public Liaison Manager

11.01.2023

Annwyl Breswlydd,

Yn ddiweddar, sicrhaodd Cyngor Abertawe gyllid o dan Raglen Llywodraeth Cymru i Reoli Perygl Arfordir i wneud gwaith hanfodol i amddiffyn yr arfordir ar ran o'r amddiffynfeydd môr presennol ar bromenâd y Mwmbwls. Bydd y gwaith gwella yn rhoi gwell amddiffyniad rhag llifogydd ac erydu arfordirol i fusnesau ac eiddo preswyl sydd mewn perygl hirdymor o lifogydd ar hyn o bryd.

Bydd y gwaith amddiffyn yn cael ei wneud o bwynt tua 250m i'r gogledd o Sgwâr Oystermouth i lawr cyn belled â Knab Rock. Mae Knights Brown wedi'i benodi'n gontractwr i ymgymryd â'r gwaith, gyda'r bwriad i ddechrau ar hyn o bryd ym mis Chwefror 2023 a'i gwblhau yn ystod haf 2024.

Byddwn yn sefydlu prif ardal ar gyfer ein swyddfeydd a lles ar dir y cyngor drws nesaf i Westy'r Oyster House, gyda storfa peirianeg offer trwm a deunyddiau pellach o fewn maes parcio Chwarel y cyngor.

Bydd y gwaith morglawdd yn cael ei adeiladu'n gynyddol ar hyd y blaendraeth o flaen yr amddiffynfeydd môr presennol gyda mynediad i'r traeth trwy lithrfeydd presennol a rampiau dros dro. Yn y lleoliadau lle mae angen i beiriannau a cherbydau safle groesi'r promenâd presennol, bydd Swyddogion Traffig yn cael eu lleoli i gyfeirio cerddwyr, beicwyr a pheiriannau. Bydd angen eithrio defnyddwyr traeth o'r ardaloedd gwaith lleol, ond bydd y pwyntiau mynediad eraill a'r traethau ar gael fel arfer. Bydd y gwaith parth llanw hwn yn cynnwys gweithredu peiriannau trwm, offer dymchwel a gosod talennau dirgrynu. Byddwn yn monitro sŵn a dirgrynu fel mater o drefn drwy gydol y gwaith hwn.

Bydd gwaith ar hyd y promenâd yn cael ei wneud ar yr un pryd â'r gwaith morglawdd, a bydd yn cynnwys adeiladu wal donnau eilaidd, gosod draeniau, goleuadau cyhoeddus wedi'u huwchraddio a gwella'r manau cyhoeddus. Er mwyn gwneud y gwaith hwn yn ddiogel, bydd yn hanfodol cau rhannau o'r promenâd. Bydd llwybr dargyfeirio arall i gerddwyr yn cael ei ddarparu o amgylch y rhan gaeedig bob tro.

Bydd Knights Brown yn cofrestru'r prosiect gyda'r Cynllun Contractwyr Ystyriol, sy'n darparu monitro, adolygu ac archwilio annibynnol o'r holl weithgareddau sydd â'r potensial i effeithio ar unrhyw randdeiliaid. O ganlyniad i natur a maint y gwaith, mae rhywfaint o aflonyddwch yn anochel, ond byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gyfyngu ar unrhyw aflonyddwch a niwsans yn sgil y gwaith.

Drwy gydol y prosiect, byddwn yn darparu diweddariadau rheolaidd trwy gyfryngau cymdeithasol, gwefan, cylchlythyr a hysbysfyrdau cymunedol. Bydd y rhain yn darparu gwybodaeth am gynnydd y cynllun, trefniadau rheoli traffig, llwybrau dargyfeirio lleol ac unrhyw hysbysiadau ymlaen llaw am waith a allai ddisgyn y tu allan i oriau arferol ein safle. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau trwy gydol y prosiect, gallwch gysylltu â ni yn uniongyrchol trwy **MumblesCPS@knightsbrown.co.uk** neu ar **07818 432183**. Byddwn hefyd yn trefnu sesiynau galw heibio cymunedol rheolaidd i ganiatáu i chi gwrdd â siarad â'n tîm yn uniongyrchol.

Cofion Cynnes,



Catherine Waller
Rheolwr Cyswllt Cyhoeddus